# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 18 Hydref 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(23)v4

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)**

**Gweld y cwestiynau**

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

**Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**3. Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Lansio ymgynghoriad ar yr angen i gyflwyno deddfwriaeth i sicrhau caniatâd rhieni ar gyfer prosesau tyllu cosmetig ar bobl ifanc (45 munud)**

**4. Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy: Cynnydd ynghylch newid yn yr hinsawdd o ran lleihau allyriadau nwyon ty gwydr a pharatoi ar gyfer newid yn yr hinsawdd (45 munud)**

**5. Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Amddiffyn rhag Tybaco (Gwerthiannau o Beiriannau Gwerthu) (Cymru) 2011 (15 munud)** (Tudalennau 1 - 3)

**NDM4828 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Amddiffyn rhag Tybaco (Gwerthiannau o Beiriannau Gwerthu) (Cymru) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Medi 2011.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Amddiffyn rhag Tybaco (Gwerthiannau o Beiriannau Gwerthu) (Cymru) 2011

Memorandwm Esboniadol – *Ar gael yn Saesneg yn unig*

**Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd yn unol â Rheol Sefydlog 12.24 ond i bleidleisio arnynt ar wahân (15 munud)**

**6. Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Iechyd Meddwl (Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol) (Cymru) 2011**

**NDM4830 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Iechyd Meddwl (Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol) (Cymru) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Medi 2011.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Iechyd Meddwl (Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol) (Cymru) 2011
Memorandwm Esboniadol – *Ar gael yn Saesneg yn unig*
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**7. Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Iechyd Meddwl (Asesu Defnyddwyr Blaenorol Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2011**

**NDM4829 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Iechyd Meddwl (Asesu Defnyddwyr Blaenorol o Wasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Medi 2011.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Iechyd Meddwl (Asesu Defnyddwyr Blaenorol o Wasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2011
Memorandwm Esboniadol – *Ar gael yn Saesneg yn unig*
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**8. Dadl ar yr Adolygiad o Gymwysterau (60 munud)**

**NDM4831 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi y bydd yr Adolygiad o Gymwysterau yn ystyried sut y gallwn sicrhau bod ein system cymwysterau yn ddealledig, yn cael ei gwerthfawrogi a'i bod yn bodloni anghenion ein pobl ifanc ac anghenion economi Cymru.

**Dogfen Ategol**
Mae Datganiad Ysgrifenedig oddi wrth y Dirprwy Weinidog Sgiliau ynghylch yr Adolygiad o Gymwysterau ar gael ar y ddolen ganlynol:
http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2011/reviewofqualifications/?skip=1&lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Rhoi ar ôl 'economi Cymru':

'ac yn benodol sicrhau mai dim ond i fyfyrwyr sydd â'r lefelau llythrennedd a rhifedd priodol y dyfernir cymwysterau'.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod y system gymwysterau bresennol wedi mynd yn gymhleth.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder bod cwmpas yr adolygiad yn eang.

**Cyfnod Pleidleisio**

**9. Dadl fer a ohiriwyd ers 5 Hydref 2011 - NDM4815 Dafydd Elis-Thomas: Diwygio Amodau Deiliadaeth y Sector Rhentu Preifat (30 munud)**

Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 Dydd Mercher, 19 Hydref 2011